



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Rhif: **WG46695**

Llywodraeth Cymru

Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

# **Cynllun i Ddileu Dolur Rhydd Feirysol Buchol (BVD) yng Nghymru**

Rhagfyr 2022

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd / This document is also available in English.  
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

**OGL** © Hawlfraint y Goron ISBN ddigiol 978-1-80535-207-5

## **Trosolwg**

Mae'r ddogfen hon yn crynhoi'r ymatebion a dderbyniodd Llywodraeth Cymru i'r ymgynghoriad ar Gynllun i Ddileu Dolur Rhydd Feirysol Buchol (BVD) yng Nghymru.

## **Y gynulleidfa**

Ymgynghoriad cyhoeddus oedd hwn, ond roedd y gynulleidfa darged yn cynnwys ceidwaid gwartheg, pobl sy'n ymwneud â'r diwydiant gwartheg, undebau ffermwyr, cynrychiolwyr y diwydiant, arwerthwyr, milfeddygon, ac aelodau eraill o'r sector amaethyddol.

## **Camau i'w Cymrydd**

Er gwybodaeth yn unig

## **Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig**

Dylid cyfeirio ymholiadau'n ymwneud â'r ddogfen hon at y canlynol:

Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol  
Llywodraeth Cymru  
Parc Cathays  
Caerdydd  
CF10 3NQ

Cyfeiriad e-bost: [LegislativeCounsel@llyw.cymru](mailto:LegislativeCounsel@llyw.cymru)

Rhif ffôn: 0300 025 0375

## **Copïau Ychwanegol**

Cyhoeddir y crynodeb hwn o'r ymateb a chopïau o'r holl ddogfennau ymgynghori ar ffurf electronig yn unig a gellir eu gweld ar wefan Llywodraeth Cymru.

<https://www.llyw.cymru/cynllun-gorfodol-dolur-rhydd-feirysol-buchol-html>

## Cynnwys

Rhan 1: Cyflwyniad.....	3
Rhan 2: Crynodeb o'r Themâu Allweddol.....	5
Rhan 3: Crynodeb o'r Ymatebion Fesul Cwestiwn.....	7
Rhan 4: Datganiad ynglŷn â'r Camau Nesaf.....	18
Atodiad A: Rhestr o'r Ymatebwyr.....	19

## Rhan 1 – Cyflwyniad

1. Mae Gwaredu BVD yn cynnig gwasanaeth sgrinio BVD gwirfoddol ar gyfer ceidwaid gwartheg Cymru, ac mae'r gwasanaeth yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru trwy Taliadau Gwledig Cymru. Hefyd, mae'r gwasanaeth yn gallu helpu ceidwaid i adnabod anifeiliaid PI (sef anifeiliaid sydd wedi'u heintio'n barhaus) mewn buches a darparu arweiniad ar fod yn rhydd o BVD. Ni fydd cyllid gan Taliadau Gwledig Cymru ar gael ar ôl 1 Ionawr 2023, gan ddod â'r cynllun BVD gwirfoddol i ben.
2. Mae tua 11,000 o fuchesi gwartheg yng Nghymru. Hyd yma, mae tua 9,163 o'r buchesi hyn wedi'u sgrinio ar gyfer BVD (tua 83.3%), ac mae 2,539 (28%) o'r ffigur hwn wedi cael prawf positif am y feirws. Mae 940 o anifeiliaid PI wedi'u nodi yn y buchesi hyn.
3. Dangosodd data a gasglwyd yn ystod cam gwirfoddol cynllun Gwaredu BVD nad oedd modd sicrhau bod anifeiliaid PI yn cael eu symud o ffermydd a bod BVD yn cael ei ddileu trwy gynllun gwirfoddol. Y rheswm am hyn yw nad oes unrhyw gyfyngiadau ar symud anifeiliaid PI na'u buches. Mae'r gwaith o reoli anifeiliaid PI yng Nghymru wedi bod yn anghyson, gyda rhai ceidwaid yn dewis cadw neu werthu'r anifeiliaid hyn.
4. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i fwrw ymlaen â chynllun i ddileu BVD yng Nghymru.

## Y cynigion

5. Cynnig Llywodraeth Cymru yw disodli'r cynllun BVD gwirfoddol gyda chynllun gorfodol sy'n seiliedig ar ddeddfwriaeth. Bydd y ddeddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i bob ceidwad gwartheg sicrhau bod ei fuches yn cael ei sgrinio am y feirws bob blwyddyn, gan ddechrau gyda phrawf BVD o fewn 12 mis i'r sgrinio gwirfoddol blaenorol. Rhaid i'r profion gael eu cwblhau gan filfeddyg cymeradwy.
6. Bydd statws positif ar gyfer buches yn cael ei ddynodi os oes unrhyw anifail sy'n cael ei brofi fel rhan o'r broses sgrinio yn profi'n bositif am wrthgyrff BVD.
7. Bydd symudiadau buchesi sy'n profi'n bositif am wrthgyrff BVD yn cael eu cyfyngu a bydd yn ofynnol i bob anifail yn y fuches gael ei brofi'n unigol, gan gynnwys y rhai a anwyd yn y 12 mis ar ôl y prawf cadarnhaol. Ar ôl 21 diwrnod, bydd angen cynnal prawf ychwanegol ar anifeiliaid sy'n cael prawf antigenau BVD positif er mwyn pennu a yw'r anifail wedi datblygu imiwnedd.
8. Bydd gwartheg unigol o fuches â gwrthgyrff positif sy'n profi'n bositif ond yn cael symud i gael eu lladd oni bai eu bod wedi cael prawf antigenau BVD

negatif wedyn a bod 21 diwrnod wedi mynd heibio. Ni fydd hyn yn bosibl ar gyfer anifail PI, o ystyried ei anallu i ddatblygu imiwnedd.

### **Ymatebion i'r ymgynghoriad**

9. Cafodd yr ymgynghoriad ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru a hefyd fe'i hysbysebwyd gan Gwaredu BVD yn Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru 2022.
10. Derbyniwyd 106 o ymatebion ysgrifenedig i gyd. Deilliodd yr ymatebion hyn o amrywiaeth o broffesiynau a swyddi sy'n berthnasol i gadw gwartheg. Derbyniwyd y rhan fwyaf o'r ymatebion hyn o Gymru ac anfonwyd nifer fechan o fannau eraill yn y DU.
11. Bu modd i'r ymatebwyr gyflwyno'u barn a'u sylwadau ar bapur neu ar-lein, yn y Gymraeg neu'r Saesneg.
12. Mae Llywodraeth Cymru a Swyddfa Prif Swyddog Milfeddygol Cymru yn ddiolchgar i bawb a ymatebodd i gynigion yr ymgynghoriad. Mae'r ymatebion yn ffynhonnell amhrisiadwy o ran clywed barn, gwybodaeth a syniadau a fydd yn llywio'r modd y datblygir cynigion deddfwriaethol ar gyfer dileu BVD. Er na chaiff yr holl awgrymiadau ar gyfer newid neu addasu'r drefn mo'u mabwysiadu, rhoddwyd ystyriaeth briodol i'r holl bwyntiau a grybwyllwyd.
13. Isod, ceir crynodeb o'r ymatebion a gafwyd i bob cwestiwn. Ceir rhestr o'r ymatebwyr yn Atodiad A.
14. Yn achos mwyafrif yr ymatebwyr, aethant ati i ateb yr holl gwestiynau. Hefyd, cyflwynodd rhai ymatebwyr sylwadau ychwanegol a chafodd y rhain eu dadansoddi a'u nodi.
15. Gofynnwyd i'r holl ymatebwyr nodi a oeddynt yn dymuno aros yn ddiennw, ai peidio. O blith y 106 o ymatebion a gafwyd, gofynnodd 53 am gael aros yn ddiennw.

## Rhan 2 – Crynodeb o'r Themâu Allweddol

Daeth y themâu allweddol a ganlyn i'r amlwg yn yr ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad.

*Ydych chi'n ymwneud â'r sector cadw gwartheg?*

16. Cadarnhaodd 80% o'r ymatebwyr eu bod yn ymwneud yn uniongyrchol â chadw gwartheg. Roedd dros 45% ohonynt yn geidwaid gwartheg eidion ac roedd 12% yn geidwaid gwartheg godro. Dywedodd 6% eu bod yn cynrychioli undebau ffermwyr ac roedd 48% yn filfeddygon neu'n gysylltiedig â phractisau milfeddygon mewn rhyw ffordd.

*Yr egwyddorion sy'n perthyn i ddileu BVD*

17. Roedd 98% o'r ymatebwyr yn cytuno bod BVD yn broblem i'r diwydiant ffermio yng Nghymru ac roedd 99% o'r ymatebwyr yn cytuno y byddai dileu BVD yn gwella iechyd gwartheg Cymru.
18. Roedd 97% o'r ymatebwyr yn cytuno y byddai dileu BVD o fudd i geidwaid gwartheg Cymru ac roedd 89% o'r ymatebwyr yn cytuno gyda'r syniad o gyflwyno deddfwriaeth i gynorthwyo i ddileu BVD yng Nghymru.
19. Mae hyn yn arwydd o gefnogaeth gref iawn ar gyfer mynd i'r afael â BVD yng Nghymru.

*Sgrinio BVD*

20. Er mwyn bod yn rhydd o BVD, roedd 81% o'r ymatebwyr yn cytuno bod angen cynllun sgrinio BVD gorfodol a fyddai'n seiliedig ar ddeddfwriaeth, ac roedd 70% o'r farn y dylid cyfyngu ar symudiadau gwartheg a ddôl o fuchesi BVD annegatif.
21. Cafwyd ymateb cymysg o ran a ddylid cynnal profion ar wartheg cyn eu symud oddi ar ffermydd dan gyfyngiadau, gyda 48% yn dweud eu bod yn cytuno â'r cynnig hwn.
22. Roedd 56% o'r ymatebwyr yn cytuno y dylai ceidwaid dalu am brofion o dan y cynllun arfaethedig.

*Rheoli ac ynysu anifeiliaid PI*

23. Roedd 84% o'r ymatebwyr yn cytuno bod angen ynysu anifeiliaid PI er mwyn gallu cynnal cynllun effeithiol i ddileu BVD.

*Rheoli data a gorfodi mewn perthynas â BVD*

24. Roedd 88% o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig y dylai statws BVD buchesi fod ar gael yn ddiogel i geidwaid eraill, ac roedd 81% yn cefnogi'r cynnig i gyflwyno cosbau am fethu â chydymffurfio â'r cynllun dileu arfaethedig.

*Yr effeithiau ar yr iaith Gymraeg*

25. Ni chyflwynodd y mwyafrif o'r ymatebwyr unrhyw sylwadau ar gyfer y cwestiwn hwn, ond tynnodd ambell un sylw at yr angen i gynnig gwasanaeth dwyieithog i geidwaid. Yn ôl un ymateb, dylid rhoi ystyriaeth bwysig i'r angen i sicrhau y byddai gwasanaethau Cymraeg ar gael mewn diwydiant sy'n cynnwys nifer fawr o siaradwyr Cymraeg.

## **Rhan 3 – Crynodeb o'r Ymatebion Fesul Cwestiwn**

### **Dileu Dolur Rhydd Feirysol Buchol (BVD)**

26. Gofynnodd yr ymgynghoriad gwestiynau'n ymwneud â'r egwyddor o ddileu BVD a pha un a ddylid ystyried BVD yn fater pwysig yn y diwydiant cadw gwartheg yng Nghymru. Hefyd, gofynnwyd cwestiynau'n ymwneud â'r cynnig i gyflwyno deddfwriaeth ar gyfer dileu BVD.

### **Cwestiwn 1 – Ydych chi'n cytuno bod BVD yn broblem i'r diwydiant ffermio yng Nghymru?**

27. Roedd pob ymatebydd ond dau yn cytuno bod BVD yn broblem i'r diwydiant ffermio yng Nghymru a chyflwynwyd amrywiaeth o resymau am yr ymatebion hyn.
28. Aeth nifer o'r ymatebion ati i dynnu sylw at yr effaith a gaiff BVD ar iechyd a lles anifeiliaid, gan nodi gallu'r clefyd i wanhau imiwnedd a'i allu i achosi erthyliadau a chynyddu marwolaethau ymhlith buchesi.
29. Nodwyd hefyd yr effeithiau economaidd ar geidwaid a dywedwyd bod hyn yn bryder mawr. Mae'r clefyd yn lleihau cynhyrchiant o fewn buchesi a hefyd yn gostwng gwerth yr anifeiliaid, gan arwain at fwy o bwysau ariannol ar geidwaid a diwydiant llai effeithlon.
30. Dywedwyd bod dulliau anghyfrifol o drin anifeiliaid PI (sef anifeiliaid sydd wedi'u heintio'n barhaus) ac anifeiliaid TI (sef anifeiliaid sydd wedi'u heintio dros dro) yn arwain at broblemau, a bod dulliau o'r fath yn parhau i symud y clefyd ar draws ffermydd Cymru ac arwain at effaith ehangach.
31. Heb fesurau rheoli priodol i atal BVD, dywedodd rhai o'r ymatebwyr y byddai'r clefyd yn parhau i fod yn elfen amlwg yn y diwydiant yng Nghymru.
32. Yn achos y rhai a oedd yn anghytuno â'r datganiad, roeddynt o'r farn bod BVD yn broblem i ffermwyr unigol, ond nid i'r diwydiant yn ei gyfanrwydd.

### **Cwestiwn 2 – Ydych chi'n cytuno y bydd dileu BVD yn gwella iechyd a lles gwartheg Cymru?**

33. Roedd pob ymatebydd ond un yn cytuno y byddai dileu BVD yn gwella iechyd a lles gwartheg.
34. Dywedwyd y byddai cael gwared â chlefydau fel BVD, sy'n gwanhau imiwnedd, o fudd mawr i les gwartheg, gan fod eu lles yn dirywio'n fawr ar ôl iddynt gael eu heintio â Chlefyd Mwcws, yn ogystal â heintiau dilynol eraill



(e.e. niwmonia). Mae'r heintiau hyn yn llawer mwy tebygol o ddigwydd mewn buchesi lle mae BVD yn gyffredin.

35. Dywedodd eraill y byddai dileu BVD yn arwain at eni lloi iachach, y byddai'n lleihau'r angen i ddifa neu symud anifeiliaid o'r fuches ac y byddai'n gwella iechyd cyffredinol y fuches.
36. Ymhellach, y farn oedd y byddai llai o broblemau ffrwythlondeb a defnyddio llai o wrthfotigau a meddyginiaethau eraill o fantais hirdymor i iechyd anifeiliaid – sef pethau a fyddai'n digwydd yn sgil dileu BVD.
37. Crybwyllwyd cynhyrchiant, swm y llaeth ac archwaeth fel agweddau ar iechyd a lles gwartheg y gallai dileu BVD fod o fudd iddynt.

### **Cwestiwn 3 – Ydych chi'n cytuno y bydd dileu Dolur Rhydd Feirysol Buchol (BVD) yn fanteisiol i geidwaid gwartheg Cymru?**

38. Roedd pob un ond tri o'r ymatebwyr yn cytuno â'r datganiad uchod ac roedd y rhesymau a gynigiwyd yn ymwneud â safbwyntiau ynglŷn â gwella iechyd a lles yr anifeiliaid o ganlyniad i ddileu BVD.
39. Nodwyd y byddai'r gallu i gynnal buches iach yn arwain at fudd ariannol, gan y byddai angen llai o feddyginiaethau a chan y byddai cynhyrchiant yr anifeiliaid yn cynyddu. Hefyd, roedd llai o farwolaethau'n ffactor pwysig yn hyn o beth.
40. Cydnabuwyd bod yr hyder i brynu gwartheg heb unrhyw berygl o gyflwyno BVD i'r fuches yn fantais ehangach i geidwaid gwartheg, a bod hyn yn cyd-fynd ag enillion ariannol.
41. Ystyriwyd y byddai'r sicrwydd bod y fuches yn rhydd o BVD yn bwysig o ran cefnogi iechyd meddwl a llesiant ceidwaid gwartheg. Roedd yr effaith seicolegol sy'n perthyn i golli anifeiliaid yn sgil y clefyd yn sbardun pwysig dros gefnogi'r datganiad hwn.
42. Dywedodd nifer o'r ymatebwyr y byddai gwell rhagolygon masnach yn fantais i geidwaid a allai lwyddo i fod yn rhydd o BVD.
43. Soniodd ymatebydd a oedd yn anghytuno â'r datganiad hwn am un pryder yn hyn o beth, sef y byddai'n rhaid i geidwaid buchesi bach, nad ydynt yn symud gwartheg ar eu ffermydd, ysgwyddo mwy o faich ariannol yn sgil cynnal profion BVD yn ystod y broses ddileu.

#### **Cwestiwn 4 – Ydych chi yn cytuno gyda chyflwyno'r deddfwriaeth I gefnogi dileu BVD o Gymru?**

44. Roedd 89% o ymatebwyr (89) yn cytuno â'r datganiad hwn, tra roedd 11% (11) o ymatebwyr yn anghytuno.
45. Ffactorau pwysig yn yr ymatebion cefnogol oedd yr angen i sicrhau y gellid rheoli anifeiliaid heintiedig mewn modd cyfrifol ac atal anifeiliaid heintiedig rhag cael eu gwerthu.
46. Roedd ymatebwyr yn teimlo bod llwyddiant y cynllun gwirfoddol a lefel yr ymgysylltu a welwyd ymhlith y diwydiant yn ddatblygiadau cadarnhaol, roedd nifer o'r ymatebwyr o'r farn y byddai'n ofynnol cael deddfwriaeth er mwyn dileu'r clefyd. Roedd llawer o'r farn y byddai'n amhosibl dileu'r clefyd trwy ddefnyddio cynllun gwirfoddol.
47. Soniodd nifer o'r ymatebwyr am lwyddiant a chynnydd gwledydd eraill sydd wedi cyflwyno cynlluniau dileu gorfodol, a dywedyd bod y gwledydd hyn yn esiamplau y dylid eu dilyn.
48. Ym marn llawer o'r ymatebwyr, mae'r diwylliant o gadw anifeiliaid heintiedig cyson, heb fynd ati'n wirfoddol i ddewis eu difa neu gael gwared â nhw, yn sefyllfa na ellir ei datrys ond trwy ddefnyddio deddfwriaeth.
49. Er bod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno bod deddfwriaeth yn ofynnol er mwyn dileu BVD, mae'n bwysig nodi nad oedd yr holl ymatebwyr yn cytuno mai'r deddfwriaeth ar ei ffurf arfaethedig oedd y ffordd orau o gyflawni hyn.
50. Caiff manylion y safbwyntiau gwahanol hyn ynglŷn â deddfwriaeth BVD eu crynhoi yn yr adrannau a ganlyn.

#### **Sgrinio BVD**

#### **Cwestiwn 5 – Ydych chi'n cytuno bod angen deddfwriaeth sy'n cyflwyno gofynion ar gyfer sgrinio BVD rheolaidd gorfodol er mwyn dileu'r clefyd?**

51. Roedd 81% o'r ymatebwyr (82) yn cytuno â'r datganiad hwn, ond roedd 18% o ymatebwyr (19) yn anghytuno.
52. Yn achos y rhai a oedd yn cytuno, roeddynt o'r farn fod sgrinio rheolaidd yn angenrheidiol er mwyn dod o hyd i anifeiliaid PI a chael gwared â BVD o ffermydd – sef rhywbeth y gellid ei ailgyflwyno wrth symud gwartheg.
53. Thema fynych yn yr ymatebion oedd yr angen i gynyddu lefel y cyfranogi y tu hwnt i lefelau gwirfoddol, a chyflwyno system effeithiol.
54. Nodwyd yn gyson y gellid llwyddo i ddileu BVD yn llawer cyflymach ac yn fwy effeithlon trwy gael gofynion sgrinio gorfodol, ac na ellir llwyddo i gyflawni hyn trwy ddefnyddio proses wirfoddol.

55. Yn achos y rhai nad oeddynt yn cytuno â hyn, roeddynt o'r farn nad y dull hwn oedd y dull mwyaf effeithlon o ddileu BVD, ac awgrymwyd y byddai system debyg i'r un a geir yn yr Alban yn cynnig dull mwy cyson ledled y DU.
56. Yn achos ceidwaid sydd eisoes wedi llwyddo i ddileu BVD o'u buchesi, gofynnodd rhai ymatebwyr pam y byddai angen i'r ceidwaid hynny sgrinio eu hanifeiliaid bob blwyddyn.
57. Mynegwyd pryder hefyd ynglŷn â'r ceidwaid hynny sy'n prynu gwartheg o Loegr yn rheolaidd, gan na fydd deddfwriaeth BVD ar waith yn Lloegr ar ôl i gynllun Cymru ddod i rym. Y farn oedd y gallai hyn arwain at ailgyflwyno BVD i'r ffermydd hynny yng Nghymru.
58. Ymhellach, mynegwyd pryder ynglŷn â'r effaith a gaiff anifeiliaid wedi'u brechu ar y system sgrinio arfaethedig, ac y gallai ceidwaid sy'n brechu eu hanifeiliaid rhag BVD gael eu cymell i beidio â gwneud hynny, neu y gallent wynebu anfanteision.
59. Soniodd ymatebwyr eraill am lwyddiant y cynllun gwirfoddol, gan ddweud nad oedd angen cael cynllun sgrinio gorfodol. Yn achos ffermwyr nad ydynt yn mewnfario unrhyw wartheg, y farn oedd na fyddai angen eu cynnwys nhw yn y cynllun sgrinio gorfodol.
60. Roedd rhai o'r ymatebwyr yn gwrthwynebu'r syniad o gyflwyno cynllun sgrinio gorfodol oherwydd y cynnydd mewn biwrocratiaeth a'r gost a fyddai'n dod i ran ffermwyr.

**Cwestiwn 6 – Ydych chi'n cytuno y dylid cyfyngu ar symudiadau gwartheg mewn buches sydd â statws BVD positif, sy'n profi'n bositif, oni bai eu bod yn cael eu symud i'w lladd?**

61. Roedd 70% (70) o'r rhai a ymatebodd yn cytuno â'r datganiad hwn, ond nodwyd bod 30% o ymatebwyr (30) yn anghytuno.
62. Roedd yna ryw faint o ddryswch ynghylch a fydd statws BVD buchesi yn cael ei ddiffinio trwy gyfrwng profion gwrthgyrff ynteu brofion antigenau. Esbonnir hyn yng nghorff y brif ddogfen ymgynghori.
63. Y brif sail resymegol dros gytuno â'r datganiad hwn oedd yr angen i atal y clefyd rhag lledaenu o ffermydd yr amheuir bod eu gwartheg yn dioddef o BVD, gan y byddai fel arall yn bosib symud anifeiliaid â BVD heb iddynt gael eu harchwilio.
64. Rheswm arall dros gytuno â'r datganiad hwn oedd y perygl y gallai anifeiliaid â BVD heintio gweddill y fuches, ac o bosibl buchesi eraill. Roedd llawer o'r

ymatebwyr o'r farn y byddai'n hanfodol cael cyfyngiadau er mwyn sicrhau bioddiogelwch da.

65. Dywedwyd y byddai'n ofynnol cael cyfyngiadau oherwydd amharodrwydd rhai ffermwyr i reoli anifeiliaid PI yn gyfrifol.
66. Awgrymodd un sylw fod cyflwyno cyfyngiadau ar gyfer clefyd fel BVD yn anghymesur ac y byddai'n arwain at ychwaneg o gyfyngiadau i geidwaid.
67. Y farn gan rai ymatebwyr oedd y byddai'r cyfyngiadau hyn o anfantais i fagwyr a phesgwyr lloi pe baent yn prynu anifeiliaid ag antigenau positif.
68. Mynegwyd pryderon ynglŷn â'r perygl y gallai anifeiliaid sy'n teithio i ladd-dai ledaenu BVD.
69. Ym marn un o'r ymatebwyr, byddai'r effaith ar ffermydd yn y tymor byr, a hwythau hefyd o bosibl yn delio â TB, yn rhoi straen mawr ar geidwaid a'u gallu i fasnachu. Yn yr ymatebion a oedd yn anghytuno â'r datganiad hwn, soniwyd yn gyson am les y ffermwyr hynny y byddai eu buchesi'n wynebu cyfyngiadau.
70. Awgrymodd un sylw y dylid rhoi gwybod i ffermydd cyfagos ynglŷn â phresenoldeb BVD ar ryw fferm, er mwyn iddynt fod yn fwy ymwybodol o risgiau'r clefyd yn eu hardal a'u helpu i deilwra eu hymdrechion bioddiogelwch.
71. Roedd rhai o'r ymatebwyr yn amheus ynglŷn â difrifoldeb y cyfyngiadau. Cynigiwyd awgrym amgen, sef y dylid cyfyngu lefel y cyfyngiadau i wartheg beichiog ac anifeiliaid PI yn unig ac na ddylid gosod cyfyngiadau ar fuchesi ar sail canlyniad prawf gwrthgyrff.
72. Yn achos ymatebwyr nad oeddynt yn cytuno â'r datganiad yn y cwestiwn hwn, dywedasant eu bod yn cefnogi'r dull "tagio a phrofi" ar gyfer profi am BVD fel dewis arall a ffefrir mewn sylwadau i gwestiwn 10.
73. Gofynnwyd pam y dylid gosod cyfyngiadau mor sylweddol ar fuchesi os mai nifer fechan yn unig o'r anifeiliaid a oedd wedi cael profion gwrthgyrff.

**Cwestiwn 7 – Ydych chi'n cytuno na ddylid caniatáu i wartheg o fuches sydd â statws BVD positif, sy'n profi'n negatif ar gyfer BVD trwy brawf antigenau, adael y daliad lle maent wedi'u lleoli oni bai eu bod yn cael prawf antigenau negatif cyn symud o fewn 21 diwrnod iddynt symud?**

74. Er bod yr ymatebion a gafwyd i'r cwestiwn hwn yn weddol gyfartal, dywedodd mwyafrif bach o 51% (50) o'r ymatebwyr nad oeddynt yn cytuno â'r datganiad uchod.

75. Yn achos anifeiliaid y gellir profi nad ydynt yn anifeiliaid PI yn ystod y cam Helfa PI, awgrymwyd gan 6 ymatebydd y gellid rhoi 'trwydded gydol oes' iddynt i symud yn ddilyffethair heb orfod cynnal profion ychwanegol arnynt.
76. Mynegodd ymatebwyr amheuson ynglŷn â'r gallu i sicrhau nad yw anifail sy'n gadael y safle wedi cael ei heintio â BVD ar ôl ei brawf cyn symud, oni bai ei fod yn cael ei roi mewn cwarantyn cyn ei symud.
77. Awgrym arall oedd y dylai'r cyfnod cyn symud fod yn 60 diwrnod yn hytrach nag yn 21 diwrnod, er mwyn cyd-fynd â rheolau TB.
78. Awgrym arall oedd y byddai ynysu'r anifail cyn ei symud yn ffordd fwy effeithiol o sicrhau na châi anifeiliaid TI eu symud oddi ar ffermydd.
79. Yn achos yr ymatebwyr a oedd yn cytuno â'r datganiad, aethant yn eu blaen i sôn am y risg a allai wynebu buchesi eraill yn sgil anifeiliaid BVD positif. Roedd yr ymatebion hyn yn cefnogi'r syniad o gynnal profion cyn symud fel ffordd o rwystro'r clefyd rhag cael ei drosglwyddo i anifeiliaid eraill.
80. Gofynnwyd cwestiwn ynglŷn â symud buchod beichiog a allai gael prawf gwrthgyrff negyddol ond a allai fod yn fuchod '*Trojan*'. Ymdrinnir â'r mater hwn yn ymateb y Llywodraeth i'r ymgynghoriad.
81. Roedd rhai o'r farn fod y rheol hon yn anfanteisiol i fusnesau sy'n magu ac yn pesgi lloi, gan y gallai arwain at oedi cyn eu symud.
82. Gofynnodd un ymatebydd a ellid defnyddio canlyniadau'r helfa PI fel prawf cyn symud. Mynegwyd amheuson ynghylch a fyddai ceidwaid yn fodlon derbyn ymweliad ychwanegol gan filfeddyg, ynghyd â chost ychwanegol y profion.
83. Cynigiwyd y gellid cynnal profion ar anifeiliaid ar ôl eu symud er mwyn chwilio am anifeiliaid TI. Y sail resymegol wrth wraidd y cynnig hwn oedd y gallai anifail gael ei heintio â BVD ar ôl cynnal y prawf cyn symud, ond cyn iddo gael ei symud.
84. Pryder mawr a fynegwyd yn rhai o'r ymatebion oedd y cynnydd yn y galw am filfeddygon i gynnal y profion.
85. Gofynnodd rhai ymatebwyr a oedd lledaenu'r haint trwy gyfrwng anifeiliaid TI yn ddigon difrifol i gyfiawnhau cynnal profion cyn symud, a dywedwyd mai rheoli anifeiliaid PI oedd y ffactor pwysig o ran dileu BVD.
86. Gofynnodd llawer o'r ymatebwyr am ragor o dystiolaeth i gyfiawnhau hyn. Caiff hyn ei ddarparu gan ymateb y Llywodraeth i'r ymgynghoriad.

**Cwestiwn 8 – Mae'n bosibl y bydd yn ofynnol i geidwaid gwartheg dalu am sgrinio eu buchesi, talu am elfeydd PI a thalu am brofion cyn symud er mwyn symud gwartheg o fuches BVD positif. Ydych chi'n cytuno bod hyn, mewn egwyddor, yn ofniad teg?**

87. Roedd oddeutu 56% o'r ymatebwyr (55) yn cefnogi'r cynnig hwn tra bod 43% (43) yn anghytuno .
88. Dywedodd nifer o'r rhai a oedd yn cytuno â'r datganiad hwn y byddai'r arbedion a'r manteision hirdymor sydd ynghlwm wrth ddileu BVD yn drech na'r costau y byddai'n rhaid i geidwaid eu talu am brofion yn y tymor byr.
89. Roedd rhan fwyaf yr ymatebwyr o'r farn bod lefel y cymorth gan Gwaredu BVD yn ystod cam gwirfoddol y cynllun yn ddigonol i alluogi ceidwaid i reoli BVD ar eu ffermydd, cyn cyflwyno costau am gynnal profion.
90. Yn achos rhai o'r ymatebwyr a oedd yn cytuno mewn egwyddor y dylai ceidwaid dalu am y profion, dywedasant y byddai lefel y profion (profion cyn symud o bosibl) yn cynyddu'r baich ariannol ar geidwaid, ac y gellid symleiddio'r drefn.
91. Awgrymwyd y dylai ceidwaid weithio gyda milfeddygon er mwyn sicrhau y byddai modd cadw costau'r profion mor isel â phosibl.
92. Rhywbeth a welwyd yn amlwg yn yr ymatebion oedd pryderon y byddai ceidwaid sy'n brechu eu hanifeiliaid rhag BVD yn cael eu cosbi oherwydd y tebygolrwydd y byddai'n rhaid cynnal Helfeydd PI.
93. Yn achos yr ymatebwyr a oedd yn anghytuno mewn egwyddor, dywedasant y dylai Llywodraeth Cymru naill ai dalu am y profion yn llawn neu gynnig cymorthdaliadau ar gyfer profion i ddileu BVD. Y sail resymegol wrth wraidd hyn oedd y pwysau ariannol sy'n wynebu ceidwaid oherwydd ffactorau ehangach.
94. Gofynnwyd a fyddai modd mynd ati'n well i hyrwyddo'r manteision ariannol sy'n perthyn i ddileu BVD.
95. Aeth rhai ymatebwyr ati i gymharu'r cynllun â rheolau TB – os nad oes yn rhaid i geidwaid dalu am brofion TG, yna ni ddylid gofyn iddynt dalu am brofion BVD.
96. Awgrymwyd mai dim ond y ceidwaid hynny na wnaethant ymhél â'r cam gwirfoddol a ddylai dalu am eu profion.
97. Rhywbeth a welwyd yn nifer o'r ymatebion oedd y posibilrwydd y byddai ceidwaid yn cael eu cosbi trwy orfod cynnal helpa PI ar ôl symud anifeiliaid wedi'u brechu/anifeiliaid â gwrthgyrff positif.

98. Thema fynych oedd y cynnydd mewn costau a'r effaith ar iechyd meddwl y ceidwaid.
99. Yn ôl dau ymatebydd, os gofynnir i geidwaid dalu am y profion, yna dylid cynnig cymorth ac arweiniad ychwanegol er mwyn gwella lefelau bioddiogelwch ar ffermydd a lleihau'r posibilrwydd y gellid ailgyflwyno BVD.
100. Dywedodd nifer o ymatebwyr y gellid annog ffermwyr i gydymffurfio â'r drefn trwy gynnig cymhorthdal neu wobr ariannol arall am reoli anifeiliaid PI yn llwyddiannus ac yn ddi-oed.
101. Awgrymwyd trefn amgen, sef y dylai Llywodraeth Cymru dalu am sgrinio BVD gorfodol, ond y dylai ceidwaid dalu costau'r Helfeydd PI.

### **Rheoli ac Ynysu Anifeiliaid PI**

#### **Cwestiwn 9 – Ydych chi'n cytuno bod angen deddfwriaeth sy'n cyflwyno gofynion gorfodol i ynysu anifeiliaid PI er mwyn dileu'r clefyd?**

102. Roedd 84% o'r ymatebwyr (85) yn cytuno â'r datganiad hwn. Dywedodd 15% (16) nad oeddynt yn cytuno ag ef.
103. Awgrymodd rhai o'r ymatebwyr y dylid cynnig iawndal i geidwaid am ladd neu ynysu anifeiliaid PI.
104. Yn achos y rhai nad oeddynt yn cytuno â'r datganiad, roedd nifer ohonynt o'r farn y byddai lladd gorfodol yn ddull mwy effeithiol o reoli BVD. Dadleuwyd y gellid tanseilio'r cynllun yn sgil y risg y byddai'r clefyd yn cael ei ledaenu, neu oherwydd amharodrwydd neu anallu ceidwaid i ynysu'r anifeiliaid.
105. Dywedodd y rhai a oedd yn cytuno â'r datganiad mai'r swm mawr o feirws a ledaenir gan anifeiliaid PI yw'r prif ffactor o ran penderfynu bod angen eu hynysu am gyfnod amhenodol.
106. Dywedodd un ymatebydd y byddai ceidwaid yn fwy tebygol o ddifa anifeiliaid PI pe gwrthodir iddynt fynd i'r gadwyn fwyd, ac y byddai hynny'n lleihau'r risg o drosglwyddo BVD trwy gyswllt neu ffomidau.
107. Dywedwyd bod y gallu i sicrhau lles anifeiliaid PI a ynysir yn destun pryder mawr.
108. Ym marn un ymatebydd, ni ddylai presenoldeb anifeiliaid PI mewn uned besgi arwain at orfod ynysu anifeiliaid, a dywedwyd nad oedd hyn yn berthnasol i ledaeniad y clefyd. Awgrymwyd mai'r unig anifeiliaid y dylid eu hynysu yw anifeiliaid PI a ddaw i gysylltiad ag anifeiliaid bridio.

109. Awgrymwyd dewis arall yn lle rhoi terfyn amser i geidwaid anfon eu hanifeiliaid PI i'w lladd, gan barhau â'r cyfyngiadau ar y fferm pe na baent yn gwneud hynny.
110. Nodwyd peth pryder ynglŷn â defnyddio anifeiliaid cydymaith a'r modd y gallai hyn gynyddu'r risg o drosglwyddo BVD i'r fuches.
111. Thema amlwg yn rhai o'r ymatebion hyn oedd sicrhau dulliau gorfodi cadarn a'r angen i fynd y tu hwnt i gadw anifeiliaid PI ar y fferm.

### **Rheoli Data BVD**

#### **Cwestiwn 10 – Ydych chi'n cytuno y dylai statws BVD buchesi ac anifeiliaid unigol ar ffermydd (os yw statws y fuches yn BVD positif) fod ar gael yn ddiogel i geidwaid eraill trwy borth ar-lein Amlrywogaethau Cymru adeg prynu gwartheg?**

112. Roedd 88% (89) o'r ymatebwyr yn cytuno â'r datganiad hwn. Roedd 12 o'r ymatebwyr yn anghytuno ag ef.
113. Roedd rhai o'r ymatebwyr nad oeddynt yn cytuno â'r datganiad hwn yn bryderus y gallai'r arfer hwn arwain at stigma yn achos y ffermydd hynny a oedd wedi cael prawf BVD positif yn ystod y sgrinio neu'r cam Helfa PI.
114. Yn achos y rhai a oedd yn gefnogol i'r datganiad, ar y cyfan roeddynt yn ffafrio'r arfer o ddibynnu ar allu'r ffermwyr a oedd yn prynu gwartheg i wneud penderfyniadau cytbwys a gweld statws yr anifeiliaid a fyddai'n cael eu symud, yn arbennig wrth brynu anifeiliaid bridio.
115. Dywedodd rhai y dylai marchnadoedd ysgwyddo cyfrifoldeb dros gyhoeddi statws BVD yr anifeiliaid cyn hysbysebu gwerthiannau.
116. Gofynnodd rhai ymatebwyr am gael eglurhad er mwyn helpu ceidwaid i ddehongli'r wybodaeth BVD a fyddai ar gael, ac yn arbennig er mwyn sicrhau y byddai modd deall y gwahaniaeth rhwng statws positif o ran gwrthgyrff a statws positif o ran antigenau.
117. Gofynnodd rhai o'r ymatebwyr a fyddai'r wybodaeth hon ar gael trwy'r DU.
118. Roedd ymatebwyr eraill o blaid arddangos yr wybodaeth hon ar sail statws antigenau, ond nid ar sail statws gwrthgyrff.

### **Gorfodi**

#### **Cwestiwn 11 – Ydych chi'n cytuno y dylai ceidwaid sy'n methu cydymffurfio â gofynion y cynllun gorfodol arfaethedig gael eu cosbi?**



119. Roedd 81% (84) o'r ymatebwyr yn cytuno â'r datganiad hwn. Dywedodd 18% (18) eu bod yn anghytuno.

120. Awgrymodd dau ymatebydd bod cyfyngu ar symud yr anifeiliaid yn gosb ddigonol ynddi'i hun, ac nad oedd angen cymryd camau pellach.

121. Holodd dau ymatebydd sut byddai'r broses yn cael ei monitro a'i gorfodi.

122. Roedd yr ymatebwyr a oedd yn cytuno â'r datganiad o'r farn bod angen cyflwyno cosbau cymesur er mwyn sicrhau y cydymffurfir â'r rheolau.

123. Roedd pum ymatebydd yn codi yr angen am broses Apelio ar gyfer ceidwaid, yn cynnwys proses i unioni materion cyn cyrraedd y cam erlyn.

### **Sylwadau Ychwanegol**

124. Ailadroddwyd y pwynt ynglŷn â chymhlethdod gan 5 ymatebydd, a dywedodd 13 o'r ymatebwyr eu bod yn cytuno mewn egwyddor â dileu'r clefyd, ond nad oeddynt yn cytuno â'r dull sgrinio blynyddol ar ei ffurf arfaethedig.

125. Mynegwyd pryder gan 8 ymatebydd ynglŷn â'r gost a fyddai'n wynebu ceidwaid a'r diffyg iawndal am gyfyngu ar fuchesi a difa anifeiliaid PI, a soniodd rhai am y pwysau ariannol a gweinyddol ychwanegol a allai ddod i ran ceidwaid.

126. Mynegwyd pryder ynglŷn â'r posibilrwydd o gael rheolau BVD gwahanol yn Lloegr yn y dyfodol a'r effaith ar reoli risgiau BVD trawsffiniol.

127. Gofynnodd yr ymatebwyr a fyddai modd i Lywodraeth Cymru roi'r system fwyaf effeithiol ar waith ar gyfer dileu BVD, gan adeiladu ar y cynnydd a gyflawnwyd yn sgil y gwariant hyd yn hyn.

## **Rhan 4: Datganiad ynglŷn â'r Camau Nesaf**

Bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi ei hymateb swyddogol i'r crynodeb o ymatebion, gan fynd ati lle bo angen i ymdrin â'r themâu allweddol a chyflwyno gwybodaeth ychwanegol ynglŷn â'r gofynion a'r sail resymegol.

Bydd modd defnyddio y crynodeb o ymatebion wrth ddatblygu'r ddeddfwriaeth BVD arfaethedig. Efallai y bydd ymgynghoriad cyhoeddus arall yn cael ei gynnal ar y ddeddfwriaeth arfaethedig derfynol er mwyn casglu barn ynglŷn ag unrhyw ofynion newydd neu ddiwygiedig yn y cynnig.